The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu Prosiect Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

Gwrandawiad Mater Penodol:	Gwrandawiad Penodol Cyntaf ar Fioamrywiaeth (Ecoleg Daearol; Adar; Gwaith Morol ac effeithiau amgylcheddol; HRA)
Dyddiad:	10 Ionawr 2019, 9.00am i ddechrau am 9.30am
Lleoliad:	Gwesty Bae Trearddur, Bae Trearddur, Ynys Môn LL65 2UN

Gwrandawiadau Mater Penodol

Gwahoddir pob Parti â Buddiant i ddod i wrandawiadau mater penodol, ond byddai'n hwyluso'r broses o'u cynnal pe gallech roi gwybod i Dîm Achos yr Arolygiaeth (Wylfa@pins.gsi.gov.uk) am ddymuniad i gymryd rhan cyn y gwrandawiad.

Mae gan bob Parti â Buddiant yr hawl i wneud cynrychiolaethau llafar mewn gwrandawiadau. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i rym yr Awdurdod Archwilio (ExA) i reoli gwrandawiadau.

Bydd lleoliad y gwrandawiad ar agor 30 munud cyn i bob gwrandawiad ddechrau er mwyn iddo allu dechrau'n brydlon. Bydd gwrandawiadau'n gorffen cyn gynted ag y bydd yr ExA yn penderfynu bod pawb sy'n bresennol wedi dweud eu dweud a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw.

Diben yr agenda hon yw rhoi arweiniad yn unig. Ni fwriedir iddi fod yn gyfyngedig i'r materion hyn na chynnwys pob mater posibl. Gallai'r ExA ychwanegu materion eraill i'w hystyried, gallai newid y drefn ar gyfer ystyried materion a bydd yn ceisio neilltuo digon o amser i bob mater fel y gellir eu hystyried yn briodol. Os na thrafodir mater penodol mewn gwrandawiad, ni fydd hynny'n atal archwilio'r mater hwnnw ymhellach, gan gynnwys trwy gwestiynau ysgrifenedig pellach.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd y materion yn cael eu trafod ar y diwrnodau a bennwyd yn yr amserlen. Os bydd yn cymryd llai o amser nag a ragwelwyd i ystyried y materion, gallai'r ExA derfynu'r Gwrandawiad cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi cael eu gwneud a'r holl gwestiynau wedi cael eu gofyn a'u hateb.

Os oes materion ychwanegol i'w hystyried neu os oes cyflwyniadau sy'n cymryd cryn dipyn o amser mewn unrhyw Wrandawiad, mae'n bosibl y bydd angen ymestyn hyd y sesiwn y diwrnod hwnnw. Fel arall, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a neilltuo eraill ar gyfer cwestiynau ysgrifenedig pellach.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Sylwer:

Er mwyn sicrhau bod yr agenda'n cael ei chyhoeddi cyn gwyliau'r Nadolig, fe'i lluniwyd cyn derbyn cyflwyniadau ar gyfer Terfyn Amser 3.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Gwrandawiad Mater Penodol: Gwrandawiad Penodol Cyntaf ar Fioamrywiaeth (Ecoleg Daearol; Adar; Gwaith Morol ac effeithiau amgylcheddol; HRA)

Agenda

1. **Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

2. **Diben y Gwrandawiad Mater Penodol**
   a. Ystyried effeithiau bioamrywiaeth y Cais o ran ecoleg forol a daearol ac adar.
   b. Ystyried yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o ran y Cais.

3. **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**
   a. Deall y gwahaniaethau rhwng Partïon â Buddiant o ran data arolwg adar môr.
   b. Archwilio'r effeithiau ar nodweddion diddordeb:
      i. Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn, gan gynnwys effeithiau ffrwydro ar Fôr-wenoliaid; ac
      ii. Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn, gan gynnwys effeithiau o ddraenio Twmpath E.
   c. Deall y gwahaniaethau rhwng Partïon â Buddiant o ran prosesau arfordirol a monitro geomorffolegol, gan gyfeirio'n benodol at gyflwyniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol [REP2-316].

   ch. Sefydlu p'un a allai'r Cais arwain at unrhyw effeithiau ansawdd aer posibl mewn cyfuniad, gan ystyried y dyfarniad yn Wealden v SSCLG [2017] EWHC 351 (Admin).

4. **Gwaith Morol a'r Amgylchedd Morol**
   a. Deall y cynigion ar gyfer gwaith morol, a'u hamseriad, o ran effeithiau posibl ar dderbynyddion bioamrywiaeth a mesurau i'w lliniaru.
   b. Amlygu meysydd lle y ceir gwahaniaeth barn o hyd a ph'un a oes angen gwaith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i'r cynigion datblygu mewn perthynas â:
      i. Modelu a lliniaru sŵn;
      ii. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
      iii. Effeithiau cronnol o ran ecoleg fenthig;
      iv. Rhywogaethau estron goresgynnol;
      v. Monitro effeithiau gwrthdrawiadol gwaith morol; a'r
      vi. Rhyngweithio â gollyngfa Dŵr Oeri Wylfa a gollyngfa a ffedog Dŵr Oeri Magnox, a'r halogiad posibl yn deillio ohonynt.

5. **Ecoleg Ddaearol ac Adar**
    a. Derbyn diweddariad ar gynnydd rhwng partïon; esboniad o unrhyw wahaniaethau barn pwysig; a graddfeydd amser ar gyfer cwblhau o ran:
        i. Arolygon sylfaenol, asesiad hydroecolegol, draenio a dad-ddyfrio ac effeithiau ansawdd aer ar SoDdGA Tre'r Gof;
        ii. Gwybodaeth sylfaenol hydrolegol ar gyfer safleoedd digolledu Cors Gwawr a Chae Canol-dydd;
        iii. Gwybodaeth sylfaenol ac ansawdd aer ar gyfer SoDdGA Cae Gwyn;
        iv. Ansawdd aer yn Safle Bywyd Gwyllt Trwyn Pencarreg;
        v. Gwybodaeth sylfaenol am ymlusgiaid, llygod y dŵr, ystlumod, gwiwerod coch a madfallod dŵr cribog, a mesurau lliniaru ar eu cyfer; a
        vi. Gwybodaeth sylfaenol am adar sy'n bridio, brain coesgoch a thylluanod gwynion, a mesurau lliniaru ar eu cyfer.

    b. Deall p'un a ellid datrys unrhyw wahaniaethau rhwng y Partïon â Buddiant o ran y materion hyn trwy waith, mesurau lliniaru neu newidiadau ychwanegol i ofynion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft.

6. **Caniatadau, trwyddedau a chytundebau eraill**
    a. Derbyn diweddariad ar gynnydd rhwng y partïon a graddfeydd amser ar gyfer cwblhau mewn perthynas ag unrhyw faterion na thrafodwyd yn yr ail wrandawiad ar y DCO drafft ar 9 Ionawr.

7. **Pwyntiau gweithredu sy'n codi o'r gwrandawiad**

8. **Diwedd y Gwrandawiad**

Mynychwyr

Byddai'n ddefnyddiol i'r Awdurdod Archwilio pe gallai'r partïon canlynol ddod i'r gwrandawiad hwn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd partïon eraill yn gallu cyfrannu. Gwahoddir pob Parti â Buddiant i fynychu a gwneud cynrychiolaethau llafar ar y materion a amlinellir yn yr agenda, yn amodol ar ddisgresiwn yr Awdurdod Archwilio.

- Horizon Nuclear Power (yr Ymgeisydd)
- Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (IACC)
- Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar/Royal Society for the Protection of Birds (RSPB)
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol/The National Trust (NT)
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust (NWWT)

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Wylfa Newydd Nuclear Power Station Project Development Consent Order Application

Issue Specific Hearing: First Issue Specific Hearing on Biodiversity (Terrestrial Ecology; Birds; Marine Works and environmental impacts; HRA)

Date: 10 January 2019, 9.00am for 9.30am start

Location: The Trearddur Bay Hotel, Trearddur Bay, Isle of Anglesey LL65 2UN

Issue Specific Hearings

All Interested Parties are invited to attend issue specific hearings but it would assist the running of the hearings if notice could be given to the Inspectorate's Case Team (Wylfa@pins.gsi.gov.uk) of a wish to participate prior to the hearing.

Each Interested Party is entitled to make oral representations at hearings. However, this is subject to the Examining Authority's (ExA's) power to control hearings.

The hearing venue will be open 30 minutes prior to the start of each hearing to enable a prompt start. Hearings will finish as soon as the ExA deems that all those present have had their say and all matters have been covered.

This agenda is for guidance only. It is not designed to be exclusive or exhaustive. The ExA may add other issues for consideration, may alter the order in which issues are considered and will seek to allocate sufficient time to each issue to allow proper consideration of them. Any lack of discussion of a particular issue at a hearing does not preclude further examination of this issue, including further written questions.

Every effort will be made to ensure that the issues will be discussed on the days that they are scheduled for. Should the consideration of the issues take less time than anticipated, the ExA may conclude the Hearing as soon as all relevant contributions have been made and all questions asked and responded to.

If there are additional matters to be dealt with or there are submissions that take a considerable amount of time at any Hearing there may be a need to continue the session for longer on the day. Alternatively it may be necessary to prioritise matters and defer others to further written questions.

Please Note:

In order to ensure publication of the agenda before the Christmas break, this has been drafted prior to receipt of submissions for Deadline 3.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Issue Specific Hearing: First Issue Specific Hearing on Biodiversity (Terrestrial Ecology; Birds; Marine Works and environmental impacts; HRA)

Agenda

1. **Welcome, introductions, arrangements for the hearing**

2. **Purpose of the Issue Specific Hearing (ISH)**
    a. To consider the biodiversity effects of the Application with regards to both marine and terrestrial ecology and birds.
    b. To consider the Habitats Regulation Assessment in terms of the Application.

3. **Habitats Regulation Assessment**
    a. To understand the differences between Interested Parties (IPs) on seabird survey data.
    b. To explore the impacts on the interest features of:
        i. Anglesey Terns SPA, including blasting effects on Tern; and
        ii. Cemlyn Bay SAC, including from Mound E drainage.
    c. To understand the differences between IPs on coastal processes and geomorphological monitoring, with particular reference to the National Trust submission [REP2-316].
    d. To establish whether there are any possible in-combination air quality effects from the Application, taking into consideration the judgement in Wealden v SSCLG [2017] EWHC 351 (Admin).

4. **Marine Works and Marine Environment**
    a. To understand the proposals and timings of marine works in relation to potential impacts to and mitigation of biodiversity receptors.
    b. To identify areas where there are still differences of opinion and whether additional work, mitigation or changes to the development proposals in relation to:
        i. Noise modelling and mitigation;
        ii. The Water Framework Directive;
        iii. Cumulative effects in relation to benthic ecology;
        iv. Invasive non-native species;
        v. Monitoring impingement effects of marine works; and
        vi. Interaction with and potential contamination arising from the Wylfa Cooling Water outfall and the Magnox Cooling Water outfall and apron.

5. **Terrestrial Ecology and Birds**
    a. To receive an update on progress between parties; an explanation of any important differences of view; and timescales for completion in relation to:
        i. Baseline surveys, hydroecological assessment, drainage and dewatering and air quality impacts on Tre'r Gof SSSI;
        ii. Hydrological baseline information for Cors Gwawr and Cae Canol-dydd compensation sites;
        iii. Baseline and air quality information for Cae Gwyn SSSI;
        iv. Air quality at Trwyn Pencarreg Wildlife Site;
        v. Baseline information and mitigation for reptiles, water voles, bats, red squirrel, great crested newts; and
        vi. Baseline information and mitigation for breeding birds, chough and barn owls.

    b. To understand whether any differences between the IPs on these matters could be resolved through additional work, mitigation or changes to requirements of the draft Development Consent Order.

6. **Consents, licences and other agreements**
    a. To receive an update on progress between parties and timescales for completion in relation to any matters not discussed at the second draft DCO hearing on 9 January.

7. **Action points arising from the hearing**

8. **Close of Hearing**

Attendees

The ExA would find it helpful if the following parties could attend this hearing. However, this does not indicate that other parties will not be able to contribute. All Interested Parties are invited to attend and make oral representations on the matters set out in the agenda, subject to the ExA's discretion.

- Horizon Nuclear Power (the Applicant)
- Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council (IACC)
- Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales
- Royal Society for the Protection of Birds (RSPB)
- The National Trust (NT)
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust (NWWT)